GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU AC AMODAU

**ADARGRAFFU**

## A CANLLAWIAU

### 1 AMCANION A CHEFNDIR

Blaenoriaeth grantiau'r Cyngor Llyfrau yw darparu amrywiaeth dda o lyfrau newydd a safonol i gynulleidfa eang o ddarllenwyr Cymraeg. Amcan y grant adargraffu yw cynnig cymorth i gyhoeddwyr adargraffu llyfrau y gellir dangos yn glir fod achos dros wneud hynny.

### 2 CYMHWYSTER

***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***
Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr sy'n gymwys i dderbyn grantiau cyhoeddi Cymraeg Cyngor Llyfrau Cymru. Fodd bynnag, ni ellir cefnogi adargraffiad o lyfr a gafodd grant eisoes o fewn y flwyddyn flaenorol. Ni ellir rhoi grantiau i adargraffu llyfrau a gyhoeddwyd yn wreiddiol heb nawdd Cyngor Llyfrau Cymru.

Disgwylir i gyhoeddwyr sy'n derbyn grant cyhoeddi gadw llyfrau mewn print am o leiaf flwyddyn ar ôl eu cyhoeddi ac ni ellir eu hystyried am grant adargraffu cyn pen y flwyddyn honno.

Yn gyffredinol, dylai llyfrau a gyhoeddwyd gyda grant cyhoeddi ers 2020 fod ar gael fel e-lyfrau ac os nad oes e-lyfr ond bod ffeiliau addas ar gael, dylai darparu e-lyfr fod yn flaenoriaeth bob amser.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn fodlon derbyn ceisiadau am grantiau i gefnogi adargraffiadau pan mae modd dangos yn glir bod achos dros wneud hynny.

### 3 Y GRANT

Cynigir y grant hwn ar gyfer adargraffiadau yn unig (gweler 'Diffiniadau' isod).

Dyfernir pob un o'r grantiau gan Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi'r Cyngor trwy broses ymgeisio gystadleuol. Bydd staff adrannau eraill y Cyngor yn cael cyfle i fynegi barn ar yr adargraffiadau arfaethedig yn ystod y broses.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

## 4 DIFFINIADAU

**Adargraffiad**
Yn y cyd-destun hwn mae'r Cyngor yn ystyried adargraffu i olygu argraffu rhediad ychwanegol o lyfr fydd yn union yr un fath â'r rhediadau blaenorol ond am y manylion cyhoeddi. Bydd y cynnwys, ac eithrio rhai mân gywiriadau, efallai, yn union yr un fath a dylai arddangos yr un ISBN. Ni ellir cynnwys adargraffiadau ar raglenni cyhoeddi'r gweisg.

**Argraffiad Newydd**
Yn y cyd-destun hwn mae'r Cyngor yn ystyried argraffiad newydd i olygu argraffu rhediad newydd o lyfr a gyhoeddwyd eisoes ond gyda newidiadau sylweddol, diweddariadau, rhagymadrodd, fformat, clawr neu ddyluniad newydd fydd yn arddangos ISBN newydd. Dylid trafod hyn gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi, ond gellir ystyried argraffiadau newydd ar raglenni cyhoeddi'r gweisg. Nid yw'r grant hwn yn ariannu argraffiadau newydd.

## 5 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Dylid cyflwyno achos cryno dros y llyfrau y dewisir eu hadargraffu a dylai'r achos gynnwys tystiolaeth bod y rhediadau argraffu cynt wedi bod yn rhesymol ac yn ddigonol i'r disgwyliadau ar y pryd a bod galw parhaus am y gyfrol mewn fformat papur, ond, er gwaethaf hyn, bod angen cymorth ariannol i gyhoeddi'r gyfrol.

Gellir, yn ogystal, wneud achos diwylliannol neu addysgol dros adargraffu; bod pwys diwylliannol i weld y gyfrol mewn print yn hytrach nag ar fformat digidol, bod cael cyfrol mewn llaw yn allweddol i'r profiad darllen, neu nad ydy'r cynnwys yn dangos yn briodol ar sgrin.

Mae disgwyl i'r cyhoeddwr farchnata'r adargraffiad o'r newydd fel ei fod yn cyrraedd cynulleidfa eang ac nid yr unigolion sy'n disgwyl amdano yn unig.

Cloriennir ceisiadau hefyd yn ôl y meini prawf canlynol:

- rhediad argraffu digonol
- gwerthiant oes y llyfr, a gwerthiant ers yr adargraffiad diwethaf
- rhagolygon gwerthiant dros y ddwy flynedd ar ôl adargraffu;
- pris gwerthu
- cost adargraffu
- y gynulleidfa arfaethedig a'r cynlluniau hyrwyddo
- y bwlch fyddai yn y farchnad heb yr adargraffiad

## 6 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- O ystyried yr uchod, mae croeso i unrhyw gyhoeddwr gyflwyno rhestr o gyfrolau y dymunir eu hadargraffu i'r Adran Datblygu Cyhoeddi ar gyfer cyfarfod yr Is-bwyllgor bob mis Mawrth. Gellir gwneud hynny trwy lenwi ffurflen syml a geir trwy'r cyfeiriad ar



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

ddiwedd y ddogfen hon. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer adargraffu bob blwyddyn fydd canol Chwefror.
- Bydd ceisiadau'r cyhoeddwyr yn cael eu cyflwyno am arian o'r Gyllideb Llyfrau Unigol ac yn cystadlu am flaenoriaeth.
- Rhaid ymgeisio ar y ffurflen gais, sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Os oes gan y cyhoeddwyr fwy nag un llyfr i'w cynnig, dylid cyflwyno'r rhestr yn nhrefn blaenoriaeth.
- Bydd cystadlu brwd am y grantiau hyn: y mae'n bwysig, felly, bod pob ymgeisydd yn dadlau ei achos yn y dull llawnaf posibl.

**7 DYFARNU'R GRANT**

Gall yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi ddyfarnu grant llawn ar gyfer yr adargraffiad neu ddewis cyfrannu at y costau.

Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol â'r amodau cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol. **Disgwylir i bob cyhoeddwr ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.**

**8 TALU'R GRANTIAU**

Ni thelir grant nes cyhoeddi'r llyfr. Dylid hawlio'r grant drwy lenwi'r ffurflen sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon a chyflwyno'r anfonebau perthnasol. Bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn archebi copi o'r cyhoeddiad o stoc y cyhoeddwr yn y Ganolfan Ddosbarthu.

**9 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD**

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gofyn deirgwaith am ffigurau gwerthiant ar gyfer pob llyfr a gefnogir gan y Grant Cyhoeddi. Mae'r Cyngor Llyfrau'n gofyn am ffigurau gwerthiant ar gyfer pob llyfr sydd wedi derbyn grant ar werth am hyd at chwe mis, deunaw mis, a thair blynedd. Gofynnir am y ffigurau hyn yn flynyddol ym mis Medi.

## B AMODAU CYFFREDINOL

1 Cynigir y grant ar sail y wybodaeth yn y cais, ac mewn unrhyw ohebiaeth atodol.

2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.

3 Bydd gan y Cyngor hawl i ofyn am brawf o unrhyw daliad allanol gan y cyhoeddwr, e.e. anfoneb am argraffu dramor, taliadau am ddarluniau, etc.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

4 Cynigir y grant ar gyfer y llyfr(au) y cytunir arno/arnynt rhwng y cyhoeddwr a'r Cyngor cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rhaid i'r cyhoeddwr hysbysu'r Cyngor ymlaen llaw, trwy lythyr neu e-bost, am unrhyw newidiadau anorfod. Cytunir i gyfnewid teitlau mewn amgylchiadau eithriadol, ond ni ellir dyfarnu grant uwch os bydd y costau'n uwch o'r herwydd.

5 Ni ellir cynnwys adargraffiadau ar raglenni cyhoeddi'r gweisg.

6 Mae'n ofynnol i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant ddangos rhif ISBN 13 digid a chod bar ar ei glawr; yn achos adargraffiadau yr un yw'r rhif ISBN â'r llyfr a gyhoeddwyd yn wreiddiol.

7 Rhaid i bob adargraffiad ddangos blwyddyn gyhoeddi'r adargraffiad yn glir.

8 Gall yr Adran Datblygu Cyhoeddi hawlio hyd at bedwar copi o'r llyfr o stoc y cyhoeddwr yn y Ganolfan Ddosbarthu at ddibenion cloriannu.

9 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant fod ar gael drwy Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru ar delerau'r Cyngor Llyfrau. Dylai'r llyfr fod ar gael i lyfrwerthwyr ar y telerau masnachol arferol (h.y. lleiafswm o 33.33% o ddisgownt) oni chytunir fel arall.

10 Mae'n amod bod llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y byddant ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu werthwr, ac yn cael eu rhyddhau i gael eu gwerthu ar yr un amser gan y cyhoeddwr a'r Ganolfan Ddosbarthu.

11 Mae'n amod y dylai llyfrau grant fod mewn print ac ar gael yn y Ganolfan Ddosbarthu am o leiaf flwyddyn ar ôl eu cyhoeddi/adargraffu. Os bydd adargraffiad yn mynd allan o brint cyn pen blwyddyn, a'r cyhoeddwr yn anfodlon adargraffu, bydd y Cyngor yn gallu hawlio ad-daliad o hyd at £1,000 y llyfr. (Eithrir cydargraffiadau rhyngwladol, a llyfrau penodol dymhorol, megis rhai llyfrau Nadolig.)

12 Rhaid i bob cyhoeddwr ddarparu ffigurau gwerthiant ar gyfer pob teitl am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad adargraffu.

13 Mae'r cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'i olynwyr y bydd ef ar bob adeg wedi hyn yn rhyddarbed ac yn indemnio Cyngor Llyfrau Cymru a'i eiddo rhag pob achos, cost, hawliad a chais a gyfyd yn sgil torri unrhyw gyfraith gwlad.

14 Disgwylir i lyfr a anelir at ddysgwyr sy'n derbyn grant gan y Cyngor gydymffurfio â safonau iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Felly, rhaid i'r llyfrau fynd trwy Dîm Golygyddol CLLC i'w golygu i'r safonau hynny, yn ogystal â'u prawf ddarllen. O fynd trwy'r broses hon bydd y llyfr yn gallu dwyn brand cyfres Amdani a chael ei hyrwyddo



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

trwy rwydwaith y Ganolfan. Dylai'r cyhoeddwr ymgynghori â Thîm Dylunio CLLC er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn cydymffurfio â'r gyfres.

15 Disgwylir i bob llyfr gwreiddiol sy'n derbyn grant gan y Cyngor gael ei gyhoeddi fel e-lyfr yn ogystal, a'i osod ar ffolio.cymru ar yr un pryd â'r cyhoeddiad papur neu o fewn chwe mis, fan bellaf.

**Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:**

**Dr Lynne Williams**
**Adran Datblygu Cyhoeddi**
**Cyngor Llyfrau Cymru**
**Castell Brychan**
**Aberystwyth**
**Ceredigion, SY23 2JB**
**Ffôn: 01970 629554**
**E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru**

**MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /**
**AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE**



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government